# Adroddiad Arolygu

**Sunita Singh-Landa**

**Penarth**

Adroddi



l heb ei

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

12/03/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Y gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 5 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 18 Ionawr 2023 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Digonol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant wedi setlo, yn hapus ac yn gyfforddus yng ngofal y gwarchodwr plant. Maent yn cael digon o gyfleoedd i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am bethau sy'n effeithio arnynt. Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â'r gwarchodwr plant ac yn cymryd rhan addas mewn gweithgareddau.

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth ddigonol o'i chyfrifoldebau i amddiffyn plant. Mae'n canmol y plant am eu hymdrechion ac yn defnyddio dulliau atgyfnerthu cadarnhaol. Mae'r gwarchodwr plant yn cynnig cyfleoedd chwarae a dysgu addas i'r plant.

Mae gan y gwarchodwr plant systemau digonol ar waith i gadw'r amgylchedd yn ddiogel. Ar y cyfan, mae'r cyfleusterau yn lân ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod amrywiaeth ddigonol o gyfarpar, teganau a deunyddiau chwarae ar gael i'r plant.

Rydym ni, Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), yn cydnabod y bu rhai gwelliannau mewn perthynas ag arweinyddiaeth a rheolaeth ac rydym felly wedi cau'r achos blaenorol o ddiffyg cydymffurfio. Fodd bynnag, nid yw'r gwarchodwr plant yn rheoli ei gwasanaeth mewn ffordd gyson ac rydym wedi nodi dau faes arall i'w gwella. Rhaid i'r gwarchodwr plant ddatblygu ei hymarfer er mwyn nodi a mynd i'r afael â materion yn annibynnol ar AGC. Mae sawl argymhelliad wedi'i nodi ar ddiwedd yr adroddiad.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Llesiant — Digonol

Mae'r plant yn cael cyfleoedd digonol i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am bethau sy'n effeithio arnynt. Er enghraifft, wrth ddewis beth yr hoffent ei fwyta i ginio a phenderfynu pa adnoddau yr hoffent chwarae â nhw. Mae'r plant yn hyderus wrth ofyn cwestiynau ac mae'r gwarchodwr plant yn ymateb iddynt yn briodol. Er enghraifft, wrth addurno bag ar gyfer y Pasg â sticeri, gofynnodd blentyn, *"I want a carrot"* a rhoddodd y gwarchodwr plant sticer o foronen iddo.

Mae'r plant wedi setlo, yn hapus ac yn gyfforddus. Maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau o'u dewis, gan siarad yn hapus am eu teulu ac yn ymuno mewn sgyrsiau am eu gweithgareddau ar ôl ysgol. Mae'r plant yn cydweithredu â'r gwarchodwr plant ac yn gwrando ar gyfarwyddiadau'n dda. Mae'r rhyngweithio yn gadarnhaol.

Mae'r plant yn gyfforddus yng nghartref y gwarchodwr plant. Mae ganddynt gydberthynas gadarn â'r gwarchodwr plant. Maent yn rhyngweithio, yn chwerthin ac yn canu wrth chwarae ac ymgysylltu â'i gilydd. Mae gan y plant ymdeimlad o berthyn ac maent yn gyfarwydd â'r drefn arferol.

Mae'r plant yn ymgysylltu â'u cyfleoedd chwarae a dysgu ac yn dangos diddordeb ynddynt. Er enghraifft, mae'r plant yn mwynhau gweithgareddau chwarae byd bach ac yn adnabod lliwiau wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau crefft. Maent yn meithrin eu sgiliau echddygol manwl yn dda, gan liwio lluniau yn fedrus. Mae'r plant yn chwarae gyda'r adnoddau sydd ar gael yn briodol ac yn ymateb yn addas i'r gwarchodwr plant.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd digonol i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth, gan eu galluogi i wneud rhai pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus. Mae'r plant yn tynnu eu hesgidiau eu hunain wrth gyrraedd y cartref. Maent yn defnyddio'r ystafell ymolchi ar y llawr gwaelod ac yn golchi eu dwylo'n annibynnol. Mae'r plant yn defnyddio deunyddiau crefft yn annibynnol ac yn fedrus, gan dynnu'r gorchudd oddi ar flaen y peniau a'i roi yn ôl eto. Maent yn gofyn am help pan fo angen. Er enghraifft, pan fydd angen cymorth arnynt i agor iogwrt yn ystod amser cinio.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Gofal a Datblygiad — Digonol

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth ddigonol o'i chyfrifoldebau i amddiffyn plant. Mae ganddi amrywiaeth o bolisïau ar waith, ac mae rhai ohonynt wedi cael eu hadolygu. Fodd bynnag, mae angen datblygu rhai ohonynt ymhellach. Mae gan y gwarchodwr plant dystysgrifau hyfforddiant cyfredol ar gyfer cymorth cyntaf pediatrig ac amddiffyn plant. Mae wedi cwblhau hyfforddiant hylendid bwyd ers yr ymweliad arolygu. Mae'r gwarchodwr plant yn cwblhau dogfennaeth berthnasol ar gyfer y rhan fwyaf o'r plant yn ei gofal. Yn ystod yr arolygiad, nodwyd nad oedd pob cofnod wedi'i gwblhau, ond mae'r gwarchodwr plant wedi rhoi sicrwydd i ni ers hynny fod yr holl ddogfennaeth bellach ar waith. Mae'r gwarchodwr plant yn annog y plant i olchi eu dwylo cyn prydau, ac mae poster yn yr ystafell ymolchi i'w hatgoffa. Mae'n gwneud yn siŵr bod y byrddau wedi cael eu sychu â weips gwrthfacterol cyn gweini prydau bwyd ac yn golchi ei dwylo'n rheolaidd. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu byrbrydau a phrydau bwyd digonol i'r plant. Mae ffurflenni damweiniau, digwyddiadau a meddyginiaethau ar gael yn hwylus yn ffeiliau'r plant, ond cadarnhaodd y gwarchodwr plant na fu angen iddi gwblhau unrhyw ffurflenni yn ddiweddar. Mae'r gwarchodwr plant yn nodi ac yn cofnodi gwybodaeth berthnasol yn ei dyddiadur dyddiol.

Mae'r gwarchodwr plant yn annog rhyngweithio cadarnhaol ac yn rhoi ei pholisi rheoli ymddygiad sylfaenol ar waith, gan ganmol y plant yn rheolaidd. Clywsom y gwarchodwr plant yn dweud, *"you're doing so good"* a *"good girl"* wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau. Mae'r gwarchodwr plant yn sensitif i anghenion y plant, gan sylwi os byddant yn teimlo braidd yn swil, a chynnig mwythau, cysur a sicrwydd iddynt. Mae'n adnabod y plant yn dda ac yn trafod eu diwrnod yn yr ysgol a'r gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio ar eu cyfer ar ôl ysgol â nhw yn llawn diddordeb.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r gwarchodwr plant yn cynnig cyfleoedd chwarae a dysgu addas i'r plant. Mae'n cynllunio gweithgareddau sy'n seiliedig ar themâu, fel y Pasg a'r gwanwyn. Mae cynlluniau ar waith i'r plant gymryd rhan mewn gweithgareddau plannu ar gyfer y gwanwyn a gweithgareddau crefft y Pasg. Mae'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau crefft, gan addurno bag â sticeri a gwneud marciau. Mae'r gwarchodwr plant yn helpu'r plant i adnabod siapiau a lliwiau wrth wneud marciau. Mae ganddi ddealltwriaeth ddigonol o ddatblygiad plant ac mae'n cydnabod y cerrig milltir y maent yn eu cyflawni. Mae'n cadw cynlluniau datblygiad digonol er mwyn adolygu a chynllunio'r camau nesaf ar gyfer y plant iau. Nid oes gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth dda o'r Cwricwlwm i Gymru ac mae'n bwriadu datblygu ei dealltwriaeth ymhellach. Mae wedi gosod posteri gwybodaeth am y cwricwlwm yn yr ystafell chwarae yn ddiweddar. Er bod y gwarchodwr plant yn cydnabod pob plentyn fel unigolyn, mae ei dealltwriaeth o'r cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn gyfyngedig. Nid oes ganddi bolisi yn hyn o beth ac nid yw wedi ymgymryd â hyfforddiant mewn perthynas â'i rôl a'i chyfrifoldeb i gefnogi plant ag ADY. Yn dilyn yr ymweliad arolygu, mae'r gwarchodwr plant wedi llunio polisi ADY sylfaenol ac wedi trefnu ymweliad cymorth gan yr awdurdod lleol mewn perthynas â'i rôl o ran ADY.

## Yr Amgylchedd

**Digonol**

Ar y cyfan, mae gan y gwarchodwr plant systemau digonol ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Mae'n sicrhau bod giatiau diogelwch a chloeon wedi'u gosod, lle y bo'n briodol. Mae'r cyfleusterau yn lân ac mewn cyflwr addas ar y cyfan. Nid oedd gwiriad dyfeisiau nwy diweddar wedi'i gwblhau. Yn dilyn yr ymweliad arolygu, cynhaliwyd gwiriadau gwasanaethu ar gyfer y dyfeisiau nwy. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae'r gwarchodwr plant yn cwblhau asesiadau risg sylfaenol ar gyfer y cartref a dywedodd wrthym ei bod yn cynnal gwiriadau gweledol dyddiol o'r safle. Mae asesiadau risg ysgrifenedig sylfaenol ar waith ar gyfer teithiau a chylchoedd chwarae rheolaidd. Fodd bynnag, mae angen ychwanegu rhagor o fanylion at yr asesiadau risg ac mae'n rhaid cofnodi adolygiadau rheolaidd. Mae ymarferion tân a phrofion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd a chaiff gwybodaeth sylfaenol ei chadw. Mae'r gwarchodwr plant yn goruchwylio'r plant yn ddigonol ac yn gwybod y gwahaniaeth rhwng risgiau derbyniol ac annerbyniol ar gyfer grŵp oedran y plant y mae'n gofalu amdanynt. Er enghraifft, sicrhau nad yw'r blociau adeiladu bach o fewn cyrraedd pan fo plant ifanc yn bresennol.

Mae'r gwarchodwr plant yn defnyddio ystafell chwarae ddynodedig yng nghefn y tŷ ar gyfer gwarchod y plant. Gellir cyrraedd ystafell ymolchi ar y llawr gwaelod drwy'r gegin. Mae'r ystafelloedd yn olau ac yn gyfforddus. Mae'n darparu amrywiaeth ddigonol o deganau a deunyddiau chwarae i'r plant. Mae'r ardaloedd dan do yn groesawgar ac yn addas i blant, ac mae digon o le i'r plant chwarae a gorffwys. Cadarnhaodd y gwarchodwr plant nad yw'r plant yn defnyddio'r ardd, ond eu bod yn mynd i barciau lleol yn rheolaidd ac ar wibdeithiau. Ni chaiff yr ystafell ffrynt na'r heulfan yn y cefn eu defnyddio wrth warchod y plant ar hyn o bryd.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod dodrefn, cyfarpar a theganau ar gael i'r plant sy'n briodol ar gyfer eu hoedran, eu hanghenion a'u cam datblygu. Mae'r rhain yn cynnwys adnoddau byd bach, blociau adeiladu ac adnoddau chwarae rôl. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu rhywfaint o deganau a chyfarpar sy'n hyrwyddo amrywiaeth. Mae wedi prynu cyfarpar newydd yn ddiweddar sy'n cyd-fynd â'r thema bresennol a diddordebau'r plant, er enghraifft, llyfrau a deunyddiau celf a chrefft.

| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |
|---|---|

Mae trefniadau arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad yn ddigonol. Mae'r gwarchodwr plant wedi gwneud gwelliannau yn dilyn yr arolygiad diwethaf ond nid yw'n llwyddo'n gyson i gydymffurfio nac i nodi methiannau yn annibynnol. Rydym bellach wedi cau'r Hysbysiadau Gweithredu â Blaenoriaeth a gyhoeddwyd yn ystod yr arolygiad blaenorol. Fodd bynnag, rydym wedi nodi meysydd eraill i'w gwella ac argymhellion. Rhaid i'r gwarchodwr plant gynnal y trefniadau arweinyddiaeth a rheolaeth ar gyfer ei gwasanaeth a pharhau i'w gwella.

Nid yw'r gwarchodwr plant bob amser yn gweithio'n unol â'i datganiad o ddiben. Er enghraifft, derbyn mwy o blant na'r nifer y gall ofalu amdanynt, sicrhau bod ganddi dystysgrif MOT gyfredol ac yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyfredol. Yn dilyn ein hymweliad arolygu, mae'r gwarchodwr plant wedi cymryd camau di-oed i fynd i'r afael â'r materion. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Cynhaliodd y gwarchodwr plant adolygiad o ansawdd y gofal yn ddiweddar, a chyflwynodd Ddatganiad Hunanasesu Gwasanaeth. Mae'r adroddiad yn sylfaenol iawn ac nid yw'n ystyried barn y rhieni na'r plant. Wrth drafod â'r gwarchodwr plant, mae'n amlwg ei bod wedi gwneud gwelliannau a'i bod wedi nodi'r meysydd y mae'n awyddus i'w datblygu. Er enghraifft, gwneud cais am gyllid grant i ddatblygu'r ardd, ond ni chaiff hyn ei adlewyrchu yn yr adolygiad.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r gwarchodwr plant bellach yn sicrhau bod gan bob aelod o'r aelwyd sydd dros 16 oed dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac mae wedi rhoi manylion i AGC am bob un o aelodau presennol yr aelwyd. Mae'r gwarchodwr plant yn cadw cofrestrau cywir o'r plant sy'n mynychu, ac ar adegau, mae wedi nodi pan fo aelodau'r aelwyd yn bresennol, er na wnaed hynny'n gyson. Bellach, mae gan y gwarchodwr plant yswiriant atebolrwydd cyhoeddus, yswiriant car ac MOT cyfredol. Mae wedi'i chofrestru â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Mae'r gwarchodwr plant yn meithrin cydberthnasau addas â gweithwyr proffesiynol eraill. Mae ganddi rwydweithiau cryf â gwarchodwyr plant lleol eraill a chysylltiadau â gwasanaeth gwybodaeth i deuluoedd yr awdurdod lleol. Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo partneriaethau cadarnhaol â'r rhieni. Mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni yn rheolaidd, gan gyfathrebu â nhw ar lafar pan fyddant yn gollwng ac yn casglu eu plant, a thrwy anfon negeseuon preifat a negeseuon grŵp atynt.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 20 | Mae'r person cofrestredig wedi methu â sicrhau bod lles y plant yn cael ei ddiogelu. Sicrhau y gwneir darpariaeth briodol i ddiogelu a hyrwyddo lles y plant bob amser. | Cyflawnwyd |
| 31 | Mae'r person cofrestredig wedi methu â rhoi gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru am newidiadau i'w gwasanaeth o fewn yr amserlenni a bennwyd. Mae angen iddi sicrhau ei bod yn ymwybodol o'r gofynion i hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru am newidiadau i'r gwasanaeth, ac o fewn yr amserlenni cywir. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 15 | Nid yw'r person cofrestredig bob amser yn gweithredu'n unol â'i datganiad o ddiben. | Newydd |
| 25 | Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod y gwiriadau diogelwch nwy yn gyfredol bob amser. | Newydd |
| 16 | Nid yw'r person cofrestredig wedi rhoi system ar waith i fonitro ac adolygu ansawdd y gofal a ddarperir, nac wedi cwblhau adroddiad dilynol. Sicrhau y caiff adolygiad effeithiol o ansawdd y gofal ei gynnal bob blwyddyn ac y caiff adroddiad ei lunio. | Cyflawnwyd |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| **Safonau Gofynnol Cenedlaethol** | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 5 - Cofnodion | Sicrhau bod cofnodion pob plentyn a'r cofrestrau yn gyflawn ac yn cael eu cynnal yn gywir |
| Safon 4 - Diwallu anghenion unigol | Meithrin gwybodaeth am Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a'r disgwyliadau sydd ar ddarparwyr i gefnogi plant ag ADY, a sicrhau dealltwriaeth ohonynt. |
| Safon 22 – Yr | Sicrhau bod asesiadau risg yn drylwyr ac yn cael eu hadolygu'n |

| | |
|---|---|
| amgylchedd | rheolaidd |
| Safon 18 - Sicrhau ansawdd | Datblygu'r adroddiad ar Ansawdd y Gofal er mwyn sicrhau ei fod yn fwy effeithiol |

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

ddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** Insert_Report_Published_Actual_Donot_Delete